# Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC)
# Crynodeb Tystiolaeth Gyflym

## Beth yw effaith cost COVID Hir ar gyfrifoldebau cyflogaeth a gofalu?
## Rhif yr adroddiad – RES00038 (Ebrill 2022)

## Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

**Beth yw Crynodeb Tystiolaeth Gyflym?**

**Papur briffio tystiolaeth interim** i lywio gwaith pellach a sicrhau bod canfyddiadau allweddol ar gael yn gynnar. Maent yn seiliedig ar **chwiliad cyfyngedig o adnoddau allweddol** ac **asesu crynodebau**. Rhoddir blaenoriaeth i astudiaethau sy'n cynrychioli cyfuno tystiolaeth gadarn. Ni chynhelir unrhyw werthuso ansawdd na chyfuno tystiolaeth, a dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r crynodeb.

**Cefndir/Nod yr Adolygiad**

Mae COVID hir yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio arwyddion a symptomau mewn oedolion neu blant sy'n datblygu neu'n parhau ar ôl COVID-19 acíwt. Ym mis Mawrth 2022, amcangyfrifwyd bod 2.4% o boblogaeth y DU (1.5 miliwn) wedi nodi bod symptomau COVID-19 yn para mwy na 4 wythnos ar ôl achos o COVID-19 a gadarnhawyd neu a amheuwyd (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022). Cynhaliwyd y gwaith hwn yn dilyn gwaith cynharach ar effeithiau cost COVID Hir ar y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol (RES00034) a dynnodd sylw at ddiffyg tystiolaeth.

**Canfyddiadau allweddol**

- Dim ond un astudiaeth a nodwyd, **yn adrodd am effeithiau ond nid costau**: arolwg ar-lein gyda sampl o gleifion o Wlad Belg â COVID Hir o 27 Ionawr 2021 i 14 Chwefror 2021 (Castanares-Zapatero *et al.*, 2021). Canfuwyd yr astudiaeth hon hefyd fel rhan o'r gwaith blaenorol ar effeithiau costau (RES_00034) ac mae'n cynnig canfyddiadau sy'n berthnasol i effaith COVID Hir ar y gallu i weithio ac anghenion cymorth cymdeithasol ar gyfer gweithgareddau bywyd bob dydd.
- **Ni chanfuwyd unrhyw astudiaethau yn adrodd am gostau**; fodd bynnag, nodwyd pedair astudiaeth barhaus a allai gynnig tystiolaeth i ymdrin â'r cwestiwn ymchwil hwn, a oedd i fod i gael ei gwblhau erbyn 2023

**Goblygiadau'r polisi**

- Mae **diffyg tystiolaeth ar gyfer effaith cost COVID Hir ar gyfrifoldebau cyflogaeth a gofalu.**
- Mae angen ymchwil pellach ar swyddogaeth **gofalwyr di-dâl** ac effaith cost wrth gefnogi cleifion â COVID Hir
- Bydd rhaglen ymchwil Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR) y DU ar COVID Hir yn cyflwyno mwy o ganfyddiadau yn 2023 a allai ymdrin â'r cwestiwn ymchwil hwn.

**Dylid cyfeirio at yr adolygiad cyflym hwn fel a ganlyn:**
RES00038. Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru. Crynodeb tystiolaeth gyflym o effaith cost COVID Hir ar gyfrifoldebau cyflogaeth a gofalu. Mai 2022

http://www.primecentre.wales/resources/RES/RES00038_Wales_COVID-19_Evidence_Centre_Rapid-evidence-summary-of-the-cost_impact_of_Long_COVID_on_employment_and_caring_responsibilities_May_2022.pdf

**Gellir lawrlwytho'r adroddiad llawn yma:**
https://ymchwiliechydagofalcymru.org/llyfrgell-adroddiadau-canolfan-tystiolaeth-cofid-19-cymru

**Ymwadiad:**
Barn yr awduron yw'r farn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn, nid barn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae WC19EC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau.